

AMGUEDDFA CYMRU

CANOLRADD

Llwybrau Llafar

Darllenwch y darn isod:



Pam Isca/Wysg/Usk?

Mae'r tri gair uchod yn dangos sut mae ieithoedd yn llifo a newid eu cwrs fel afonydd. Yr enw hynaf ar yr afon dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl oedd ISCA.

Dyma air y Frythoneg, mamiaith y Gymraeg arni. Y Silwriaid oedd yr enw ar lwyth y Brythoniaid hyn mae'n debyg. Edrychwch ar y map i weld y llwythau eraill ar y pryd.

O'r gair ISCA fe ddaeth y gair Cymraeg WYSG tua'r bumed ganrif. Tua phum neu chwe chanrif wedyn fe ddaeth y gair Saesneg USK. Beth yw ystyr y gair? Beth yw ystyr y gair?....

Geirfa:

hynaf = oldest

mamiaith = mother tongue

llwyth/llwythau = tribe/s

pum canrif/chwe chanrif = five/six centuries

presenoldeb lluoedd = presence of hosts/armies

caer/au=fort/s

Edrychwch ar y map o Gaerllion

Doedd hi ddim yn hawdd i'r Rhufeiniaid sefydlu yn y rhan hon o dde-ddwyrain Cymru. Fel hyn mae'r hanesydd Lladin Tacitus yn dweud am y Silwriaid:

'Roedd angen presenoldeb lluoedd I'w cadw i lawr'.

Dyna pam roedd yn rhaid i'r Rhufeiniaid godi o gaerau bach i amddiffyn y tir roedden nhw wedi ei ennill.



Sylwch ar gwrs yr afon. Edrychwch ar y gaer fach ym Mrynbuga.

Trafodwch gyda phartner neu meddyliwch ar eich pen eich hun: Pam, yn eich barn chi I'r Rhufeiniaid godi eu caer fawr yng Nghaerllion-ar-Wysg?

Ar ôl meddwl/trafod, trowch y dudalen i weld rai o'r rhesymau. Ydyn nhw yn debyg i'ch rhesymau chi?

Dyma rai rhesymau:

Tybed ydyn nhw yn debyg i'ch rhesymau chi?

- Y gaer yn agos i'r afon. Felly, roedd yn hawdd dod ag offer a phobol mewn llongau i fyny'r afon Wysg.
- Roedd yn bosib codi pont dros yr afon yma.
- Roedd y tir o gwmpas yr afon yn wastad ac yn hawdd codi caer fawr.
- Safle Caerllion ar y ffordd Rufeinig rhwng Brynbuga a Chaerdydd.



UWCH



Geirfa:

allor = altar

cyfoeth = wealth

doethineb = wisdom

unigryw = unique

trysor/au = treasure/s

cyfundrefn = system,

regime

Chrefydd a Duwiau Allor i Salus

Roedd crefydd y Rhufeiniaid yn wahanol iawn i grefyddau pobl heddiw. Roedd ganddyn nhw nifer o dduwiau – er enghraifft roedd ganddynt dduwiau ar gyfer rhyfel, cariad, priodas, iechyd, cyfoeth, gwin, doethineb, a llawer o bethau eraill.

Mae'n siwr eich bod wedi clywed am rai o'r duwiau hyn. Bachus, er enghraifft oedd duw gwin. Tybed y dych chi'n gwybod am ragor? Mae'r allor yn y llun l'w gweld yn yr arddangosfa yng Nghaerllion ac mae'n ein hatgoffa o Salus, duwies iechyd.

Heb fod ymhell o Gaerllion yn Nhredegar ym Mlaenau Gwent roedd cartref Aneurin Bevan a fu'n gyfrifol am sefydlu ein Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Trafodaeth

Edrychwch ar y o'r allor a'r gofeb a thrafowch mewn paru.



- Pam, yn eich barn, chi roedd gan y Rhufeiniaid nifer o dduwiau ar gyfer pob agwedd o fywyd?
- Heddiw does gennym ni ddim 'duw/duwies iechyd' ond mae gennym ni gyfundrefn iechyd sy'n unigryw, sef y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol neu'r GIG. Beth yw'ch barn chi am GIG? Ydi'r gwasanaeth hwn yn un o'n trysorau cenedlaethol?



Arch Garreg

Arferai'r Rhufeiniaid gladdu pobl y tu allan i'r gaer yng Nghaerllion. Wrth gloddio yno mae archaeolegwyr wedi darganfod bod y Rhufeiniaid ambell waith yn rhoi gwahanol wrthrychau yn yr arch gyda chorff y person a gladdwyd.

Credent y byddai'r gwrthrychau a gladdwyd yn mynd i'r byd nesaf gyda'r meirwon. Weithiau roedden nhw yn dod o hyd i ddarnau arian dros lygaid y meirwon. Mae'n debyg mai pwrpas y rheiny oedd eu galluogi i dalu'r cychwr, sef Charon, a fyddai'n eu cludo ar draws afon Stycs.

Geirfa:

gwrthrychau = objects
y rheiny = y rhai hynny, those
cloddio = to dig
galluogi = enable
llygad/llygaid = eye/s
credent = roedden nhw'n credu



Heddiw mae'r meirwon naill ai yn cael eu corfflosgi neu eu claddu. Trafodwch pa ddull fu'n boblogaidd yn y gorffennol a pha ddull sy'n boblogaidd heddiw? Pam y newid? Beth yw'ch barn chi?

Ydych chi'n gwybod am rai arferion a fu'n boblogaidd wrth gladdu pobl, er enghraifft yn ystod angladdau, neu cyn ac ar ôl angladdau?

Carreg Fedd / Cerrig Beddau

Ceir dwy garreg fedd yn y llun; y naill yn perthyn i gyfnod y Rhufeiniaid yng Ngaerllion a'r llall yn garreg fedd bardd enwog o'r enw John Ceiriog Hughes yn perthyn i gyfnod y bedwaedd ganrif ar bymtheg ac i'w gweld ym mynwent Llanwnnog yn sir Drefaldwyn. Felly, mae'r arfer hwn o osod carreg fedd yn debyg ar ôl dwy fil o flynyddoedd.

Yn y llun o'r garreg o Gaerllion mae'r garreg yn gofeb i ferched sy'n profi bod tipyn o statws i'r ferch mewn cymdeithas Rufeinig. Dywed y garreg hon bod Tadia Exuperata yn cofio am ei mam Tadia a'i brawd Tadius.



Dyma'r englyn o waith Ceiriog a welir ar ei garreg fedd yn Llanwnnog:

Carodd eiriau cerddorol, carodd feirdd,
Carodd fyw'n naturiol;
Carodd gerdd yn angerddol,
Dyma ei lwch a dim lol.

Mae'r hollo lion a geir yng Nghaerllion fel carreg fedd enfawr i arhosiad y Rhufeiniaid yno.

Wedi ymweld â'r safle pa bethau sy wedi aros yn eich cof chi?
Pam mae'n bwysig bod llefydd fel hyn yn cael eu diogelu ac ar agor i'r cyhoedd?

Geirfa:

carreg fedd/cerrig beddau = gravestone/s
angerddol = passionate
englyn = darn pedair llinell mewn cynghanedd, sef patrwm cymhleth o gytseiniaid yn yn ateb ei gilydd mewn llinell angerddol = passionate

Ffynonellau Hanesyddol

Dyma dri pharagraff gan ddau hanesydd gwahanol ac un bardd o dri chyfnod gwahanol. Mae'r tri yn son am Gaerllion. Darllenwch y paragraffau a thrafod eu cynnwys.



Mae e'n dweud bod y llywodraethwr Frontinus wedi:

'wedi trechu drwy rym arfau genedl gref a rhyfelgar y Silwriaid ar ôl ymladdfa hir, nid yn unig yn erbyn dewrder y gelyn ond yn erbyn anawsterau tir hefyd'.

TACITUS



Ysgrifennodd Tacitus y geiriau hyn yn...

Pa anawsterau tir oedd yn wynebu'r gelyn yn eich barn chi ar ôl edrych ar y map?

Pa fanteision a oedd gan y Silwriaid dros y Rhufeiniaid?

A oedd anfanteision yn eu hwynebu wrth ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid?

Ffynonellau Hanesyddol

Yn 1188, tua mil o flynyddoedd yn ddiweddarach ymwelodd Gerallt Gymro â'r gaer yn ystod ei daith trwy Gymru. Dim ond olion y gaer oedd ar ôl erbyn hynny wrth gwrs.

Dyma beth sy ganddo fe i'w ddweud am y safle:

Cafodd ei hadeiladu'n ofalus iawn gan y Rhufeiniaid, y muriau'n cael eu gwneud o friciau... y mae plasau enfawr....tŵr uchel, ac wrth ei ymyl...faddondai poeth godidog, gweddillion temlau ac amffitheatr.

Mae'r cyfan wedi'i amgáu o fewn muriau mawreddog, y mae rhannau ohonynt yn sefyll o hyd. Ble bynnag yr edrychwch, o fewn ac y tu allan l'r muriau hyn, gellwch weld adeiladweithiau wedi'u cloddio'n ddwfn l'r pridd, sianelau dŵr, rhodfeydd tanddaear ac awyrellau...ffyrnau a fu unwaith yn trosglwyddo gwres trwy bibellau cul wedi'u gosod yn y waliau ochr

Gerallt Gymro 1188



Cymharwch y gaer heddiw â'r disgrifiad uchod gan Gerallt. Pa rannau o'r gaer a oedd yno ond sydd wedi cwmpo erbyn heddiw?

Beth sy'n awgrymu bod Gerallt yn edmygu gwaith y Rhufeiniaid yn y disgrifiad hwn?

Beth sy'n eich synnu chi heddiw wrth ystyried bod y gaer yn ddwy fil o flynyddoedd oed?

Ffynonellau Hanesyddol

Yn olaf dyma soned o waith un o feirdd mwyaf enwog Cymru, T.H.Parry Williams, a ysgrifennwyd yn 1927. Ysgrifennwyd flwyddyn ar ôl cloddio'r amffitheatr gan Tessa a Mortimer Wheeler.

Y RHUFEINIAID gan T.H.Parry Williams

Y ffyliaid gwirion, oni wyddent hwy
Fod pen ar bopeth ar y ddaear hon,
Fod pob hen garreg rywdro'n holli'n ddwy,
Mai byr barhad sydd i bob newydd-sbon?
Hwynt-hwy'r hollwybodusion, meistri'r byd,
Tybed, mewn difrif calon, nad oedd gŵr
Ohonynt a doethineb yn ei fryd,
A wyddai nad oedd dim oedd yn fwy siwr?
Gwybod neu beidio, aethant ati'n ddoeth
I godi mur a chaer a phont a ffordd,
A chreu dinasoedd â chelfyddyd goeth,
Yn feddwon ar gywreinwaith cŷn a gordd,
Heb hidio gronyn nad oes dan y ne'
Ddim byd a bery'n hir ond man a lle.

Pa ymadroddion sy'n awgrymu i chi bod y soned hon wedi'i hysgrifennu yn agos i gan mlynedd yn ôl?

Beth fyddech chi'n ei ddweud heddiw am:

oni wyddent hwy
fod pen ar bopeth
hwynt-hwy
byr barhad,
mewn difrif calon
dim byd a bery'n hir
celfyddyd goeth
yn feddwon am gywreinwaith
heb hidio gronyn

Mewn parau dyfalwch beth yw ystyr yr ymadroddion hyn.
Ar ôl dyfalu, trowch y dudalen ac edrychwch ar yr eglurhad cywir am bob un



Atebion

'onid wyddent hwy' = on'd oedden nhw yn gwybod

'fod pen ar bopeth' = fod popeth yn gorffen

'hwynt-hwy' = y nhw (gyda phwyslais)

'byr barhad' = ddim yn parhau yn hir

'mewn difrif calon' = o ddifrif

'dim byd a bery'n hir' = does dim byd yn parhau'n hir

'yn feddwon am gywreinwaith' = wedi meddwi ar (gwirioni ar/dwlu ar) waith cywrain/hardd

'celfyddyd goeth' = gwaith celf neu luniau gwych

heb hidio gronyn' = ddim yn malio/hidio dim byd

Yn awr, darllenwch y soned eto.

Ydych chi deall beth mae'r soned yn ei ddweud yn well ar ôl trafod yr ystyr?

Roedd y ddau ddisgrifiad gan Tacitus a Gerallt Gymro yn canmol ac yn bostio gwaith y Rhufeiniaid.

Ydi'r bardd yn gwneud yr un peth yn y gerdd hon? Ydych chi'n cytuno â'r bardd mai 'man a lle' yn unig sy'n parhau yr un peth.

Man a lle.

Pa fan neu le sy'n bwysig i chi? Pam?

Trafodwch y cwestiwn uchod mewn parau.

